Deall hunanwerthuso

Canllaw ar gyfer prosiectau a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr

Côd stoc:
Ysgrifennwyd gan:
Copïau pellach ar gael gan:

Ffôn: 0845 4 10 20 30
Ffôn testun: 0845 6 02 16 59
E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesedd; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Mawrth 2010

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from
The National Lottery®

Beth mae hunanwerthuso yn ei olygu a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau sy'n cyflawni hunanwerthusiad

Darllenwch y tudalennau hyn ochr yn ochr ag adran monitro a gwerthuso nodiadau arweiniad eich rhaglen.

Mae gan hunanwerthuso sawl mantais ar eich cyfer chi a'ch prosiect. **Mae'n amlygu eich cyflawniadau ynghyd â meysydd i'w datblygu**, ac yn eich helpu i symud tuag at ganlyniadau eich prosiect. Mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i chi ei hadrodd i arianwyr cyfredol neu ddarpar arianwyr ac yn eich helpu i wella'r ffordd rydych yn rhedeg eich gwasanaeth.

Bydd llawer o sefydliadau a grwpiau sy'n derbyn grantiau gan y Gronfa Loteri Fawr yn cynllunio ac yn cyflawni rhyw ffurf ar werthusiad o'u prosiect. Byddem yn eich annog i hunanwerthuso a neilltuo rhan o'r gyllideb ar gyfer y gweithgaredd hwn. Ar gyfer rhai rhaglenni ariannu, rydym yn mynnu bod prosiectau'n hunanwerthuso fel amod o'n grant.

1 Yr hyn y mae hunanwerthuso yn ei olygu i ni

Yn y Gronfa Loteri Fawr rydym yn diffinio hunanwerthuso fel a ganlyn:

Gwerthusiad o brosiect sy'n cael ei gyflawni neu ei gomisiynu gan y rhai sy'n rhedeg y prosiect. Mae'n golygu y byddant yn casglu ac yn defnyddio data i ateb eu cwestiynau eu hunain o ran ansawdd, gwerth a chyfeiriad eu gwaith, ac i reoli eu perfformiad.

2 Pam mae hunanwerthuso'n bwysig ar gyfer prosiectau

Mae hunanwerthuso'n cymryd amser ac ymdrech, ond yn eich galluogi i:

- ymchwilio i'r rhesymau pam mae pethau'n gweithio'n dda (neu pam nad ydynt yn gweithio'n dda) a gwneud newidiadau er mwyn i chi gyflawni eich canlyniadau'n well.
- casglu gwybodaeth a fydd yn eich helpu chi i adrodd i arianwyr ac eraill.
- nodi arfer da a helpu prosiectau eraill i wella'r ffordd y maent yn gweithio drwy gyhoeddi canfyddiadau eich gwerthusiad.
- creu diwylliant o fyfyrdod a dadansoddi o fewn eich sefydliad sy'n helpu pobl i wella ansawdd eu gwaith.

3 Achosion pan fydd hunanwerthuso'n orfodol

Mewn rhai achosion rydym yn hyrwyddo hunanwerthuso'n weithredol o fewn rhaglen drwy ei wneud yn ofynnol.

Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol:

- helpu gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau, dysgu o'u profiadau a gwneud newidiadau a gwelliannau
- cyfrannu at ddysgu pellach am effaith ymyraethau gwahanol
- nodi ymagweddau newydd a llwyddiannau
- helpu prosiectau i gael effaith hir dymor drwy nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, a chofnodi cyflawniadau
- caffael gwell dealltwriaeth o effaith ac effeithiolrwydd grantiau mawr
- caffael darlun mwy manwl o sut mae rhaglenni'n gweithio mewn gwledydd gwahanol.

Mae'n bosib y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn i chi rannu rhan o'ch gwybodaeth hunanwerthuso gyda ni er mwyn i ni ddysgu o'ch profiad chi. Gall fod gofyn am adroddiadau hunanwerthuso yn y cam ymgeisio hefyd os ydych yn gofyn i'r Gronfa Loteri Fawr ariannu prosiectau sydd eisoes yn bodoli. Eto, bydd nodiadau arweiniad eich rhaglen yn egluro'r broses sy'n berthnasol i'ch prosiect.

Deall hunanwerthuso

4 Sut mae hunanwerthuso'n gysylltiedig â gwerthusiadau rhaglenni neu thematig a gomisiynwyd gan y Gronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn comisiynu gwerthusiadau mawr ar draws sawl prosiect. Gall yr astudiaethau hyn ganolbwyntio ar raglenni ariannu neu themâu penodol sy'n torri ar draws rhaglenni gwahanol. Mae'r gwerthusiad ehangach hwn yn debyg i hunanwerthusiad o ran ei ddiben, ond mae ei gwmpas yn wahanol. **Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn i wella'r ffyrdd rydym yn ariannu, yr ffyrdd rydym yn gweithio ac i ddylanwadu ar lunio polisïau ac arfer.** Mae gwerthuso ein hariannu hefyd yn ein helpu i fod yn atebol yn gyhoeddus am y penderfyniadau ariannu rydym yn eu gwneud.

Mae gwerthusiadau'r Gronfa Loteri Fawr, sydd weithiau'n rhedeg dros nifer o flynyddoedd, fel arfer yn cynnwys astudiaethau achos. Mae hyn yn golygu efallai y bydd ein gwerthuswyr am siarad â chi ynglŷn â'ch prosiect, er mwyn casglu dysg ar gyfer y rhaglen ehangach. Manteision cymryd rhan fel astudiaeth achos yw y bydd modd i chi weld canfyddiadau annibynnol am werth ac ansawdd eich prosiect, yn ogystal â deall sut mae'n cymharu ag astudiaethau achos prosiectau eraill.

Mae'n bosib hefyd y bydd ein gwerthusiadau ehangach yn gofyn am ddefnyddio eich canfyddiadau hunanwerthuso i ddadansoddi materion neu themâu penodol, neu ofyn i chi gipio data ar ddechrau eich prosiect (data gwaelodlin) a thrwy gydol eich prosiect. Yn gynyddol rydym yn dod o hyd i ffyrdd i brosiectau gasglu data safonol o fewn rhaglen (er enghraifft drwy arolwg o'u defnyddwyr, gan ddefnyddio holiadur safonol). Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosib i chi gymharu eich gwaith yn erbyn gwaith pobl eraill sy'n gwneud gweithgareddau tebyg neu'n anelu at ganlyniadau tebyg.

Bydd unrhyw ddata rydych yn ei ddarparu ar gyfer gwerthusiadau'r Gronfa Loteri Fawr yn cael ei wneud yn ddienw gan y gwerthuswyr allanol a'i gadw ar wahân i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gennym ni at ddibenion monitro a rheoli grantiau.

5 Sut mae hunanwerthuso'n gysylltiedig â monitro

Mae monitro'n golygu casglu gwybodaeth fel mater o drefn yn erbyn cynllun y cytunwyd arno rhyngoch chi a'r ariannwr ar ddechrau eich grant. Mae proses fonitro'r Gronfa Loteri Fawr yn canolbwyntio ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau eich prosiect. Mae'r cynnydd hwn wedi'i nodi gan gamau o'r enw 'cerrig milltir', gyda phrosiectau sydd â graddfeydd amser ar gyfer cyrraedd pob carreg filltir. Mae'r broses hon yn wahanol i hunanwerthuso

Mae gwerthuso'n mynd ymhellach ac yn ddyfnach na monitro. Mae gwerthuso'n ymchwilio i sut a pham y cyflawnwyd rhai canlyniadau penodol (neu beidio, fel y bo'n briodol). Mae hefyd yn ymchwilio i faterion ansawdd a gwerth, gan ofyn yn bwysicaf oll: Beth oedd gwerth ac arwyddocâd y prosiect i'r sawl y bwriadwyd iddo effeithio arnynt (ac eraill yr effeithiwyd arnynt)? Mae'n bosib hefyd y bydd yn nodi canlyniadau ychwanegol nas disgwyliwyd i'r prosiect.

Un ffordd o nodi'r gwahaniaeth rhwng monitro a gwerthuso yw eu hystyried yng nghyd-destun taith mewn car:

Mae monitro'n casglu gwybodaeth am faterion megis cyflymder cyfartalog, pellter a deithiwyd, tanwydd a ddefnyddiwyd, a yw'r daith yn dilyn y llwybr a gynlluniwyd ac a yw ar amser.

Cynllunio hunanwerthusiad eich prosiect

Mae'r canlynol ymysg y cwestiynau y gellid eu gofyn fel rhan o werthuso – ai'r llwybr gorau oedd y llwybr a ddilynwyd, a fyddai'n well mynd ar y trên, a oedd hi'n werth mynd ar y daith yn y lle cyntaf.
(Scottish Homes, 1991)

6 Pwy ddylai gynnal eich hunanwerthusiad?

Chi sy'n benderfynu a ydych am gomisiynu gwerthuswr allanol gan ddefnyddio eich tîm prosiect a'ch adnoddau eich hun. Neu efallai bod yn well gennych ddefnyddio cymysgedd o'r ddwy ymagwedd.

Mae manteision pob ymagwedd fel a ganlyn:

Manteision gwneud eich hunanwerthusiad eich hun:
▶ Mae gennych chi a'ch staff wybodaeth fanwl am sut mae eich sefydliad yn gweithio.
▶ Rydych yn sensitif i anghenion eich prosiect a'i ddefnyddwyr.
▶ Mae'n galluogi eich staff i ddysgu sgiliau newydd.
▶ Mae'n annog myfyrio a dysgu gweithredol gan y rhai sy'n cymryd rhan, sy'n fwy tebygol o arwain at newid yn eich sefydliad.
▶ Byddwch yn arbed ar gostau'r prosiect.

Manteision comisiynu asiantaeth allanol i wneud yr hunanwerthuso:
▶ Bydd y gwerthusiad yn cymryd llai o amser staff.
▶ Gall cyfweleion siarad yn fwy agored.
▶ Mae'n bosib y bydd gwerthuswyr allanol yn ei chael hi'n haws nodi gwendidau.
▶ Mae'n osgoi gwrthdaro buddiannau gan fod y gwerthuswyr yn annibynnol.
▶ Bydd gan arbenigwyr sgiliau gwerthuso.
▶ Mae'n bosib y bydd pobl eraill yn ystyried bod y canlyniad terfynol yn fwy gwrthrychol/credadwy.

Sut gall y Gronfa Loteri Fawr eich helpu chi

7 Sut gall y Gronfa Loteri Fawr eich helpu chi

Bydd prosiectau'n derbyn arweiniad gan staff y Gronfa Loteri Fawr ynghylch sut i hunanwerthuso (er enghraifft, drwy ddigwyddiadau briffio rhaglenni neu arweiniad rhaglenni), neu fe gânt eu cyfeirio at ffynonellau lleol o gyngor a chymorth. Gweler yr adran "Pwy arall all helpu?" ar dudalen 8 i gael gwybodaeth am wasanaethau cefnogi ac arweiniad arbenigol gan sefydliadau eraill.

Ar gyfer rhai rhaglenni, rydym yn defnyddio ymgynghorwyr i gefnogi hunanwerthusiad prosiectau drwy gydol y grant. Gall hyn gynnwys:

- cefnogaeth drwy e-bost
- cymorth dros y ffôn
- gwefannau penodedig
- canllawiau ysgrifenedig
- gweithdai a seminarau ar gyfer hyfforddiant a rhwydweithio, a
- chymorth un i un wrth ddewis technegau a dulliau gwerthuso, trefnu cymryd rhan ac ymgynghori, dylunio deunyddiau ymchwil, dadansoddi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau

Mae cyhoeddiad y Gronfa Loteri Fawr: "Explaining the difference your project makes: a BIG guide to using an outcomes approach". (Burns, S a MacKeith, J, 2006) hefyd yn cynnwys rhai penodau sy'n berthnasol i hunanwerthuso, o'r enw, 'Measuring progress' a 'Learning from your outcomes'.

Gallwch ddod o hyd i'r canllaw hwn yn: http://www.biglotteryfund.org.uk/index/evaluationandresearch-uk/qa_explaining_difference.htm

8 Faint o waith dylech ei wneud?

Bydd yr amser a'r ymdrech y dylech eu rhoi ar gyfer hunanwerthuso'n dibynnu'n rhannol ar eich adnoddau. Mae nodiadau arweiniad eich rhaglen yn rhoi gwybodaeth ynghylch y ganran o'ch cyllideb y gellir ei dyrannu i werthuso. Dylai prosiectau mwy fedru cyflawni darn mwy helaeth o waith ond gallai fod angen i brosiectau llai ganolbwyntio ar ychydig bethau maent eisiau eu darganfod. Gallwch gynnwys data rydych wedi'i gasglu fel rhan o'ch gwaith monitro hefyd.

9 Pwy ddylech ofyn iddynt am eu barn?

Rydym yn eich annog i gynllunio a chynnal eich gwerthusiad er mwyn iddo gynnwys barn amrywiaeth o'ch budd-ddeiliaid – er enghraifft, defnyddwyr neu fuddiolwyr prosiectau, staff, cynrychiolwyr cymunedol, awdurdodau statudol a noddwyr/arianwyr. Os ydych yn brosiect llai gyda llai o arian, gallai fod yn well i chi ganolbwyntio ar gael gwybodaeth fanylach am effaith eich prosiect ar ei ddefnyddwyr allweddol.

Fel rhan o'n gwaith gyda phobl ifanc, rydym wedi ymchwilio i ffyrdd o gynnwys pobl ifanc mewn gwaith gwerthuso, o'r enw "Cynnwys pobl ifanc mewn gwerthuso ac ymgynghori" (2005). Mae llawer o'r un canllawiau'n berthnasol i grwpiau eraill.

Beth i'w gynnwys yn eich cynlluniau hunanwerthuso

10 Beth i'w gynnwys yn eich cynlluniau hunanwerthuso

Pan fyddwch yn ymgeisio i raglenni penodol, gofynnir i chi ddarparu manylion eich cynlluniau hunanwerthuso. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd rhaglenni gyda dau gam ymgeisio yn gofyn am amlinelliad bras yng ngham un a chynigion manylach yng ngham dau. Pan fyddwn yn edrych ar eich cynlluniau hunanwerthuso, ein diddordeb pennaf yw'r atebion i'r ngham canlynol:

Ar gyfer cynlluniau gwerthuso amlinellol
▶ Oes gan y gwerthusiad nod clir?
▶ Pa gwestiynau fydd y gwerthusiad yn eu hateb?
▶ Ydy'r cwestiynau hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau'r prosiect?
▶ Ydy graddfa'r gwerthusiad yn gymesur â maint y prosiect?
▶ Pwy fydd yn ymwneud â rheoli a chyflawni'r gwerthusiad?
▶ Sut bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio?

Ar gyfer cynlluniau gwerthuso manwl
▶ Os yw'r gwaith i gael ei gomisiynu, oes briff gwerthuso a sut caiff y gwaith ei gomisiynu?
▶ Os bydd staff y prosiect yn cyflawni'r gwaith, a oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol, ac a ddarperir unrhyw gefnogaeth neu hyfforddiant?
▶ A fydd data gwaelodlin yn cael ei gasglu ar ddechrau'r prosiect ac os felly, beth fydd hyn yn ei gynnwys?
▶ Sut caiff y dystiolaeth ei gasglu? Mewn geiriau eraill, beth fydd y dulliau ymchwil?
▶ Sut bydd budd-ddeiliaid lleol a phobl sy'n defnyddio'r prosiect yn cael eu cynnwys?
▶ A fydd y gwerthusiad yn adeiladu ar ymchwil arall neu gysylltu â hi?
▶ Beth yw costau'r hunanwerthusiad? Sut cawsant eu cyfrifo?
▶ Sut caiff y gwerthusiad ei ddefnyddio? Pa gynlluniau sydd ar waith i fwydo gwersi sy'n dod i'r amlwg yn ôl i waith a chyfeiriad y prosiect?
▶ Pa allbynnau fydd y gwerthusiad yn eu cyflwyno? Sut caiff adroddiadau neu ganlyniadau eraill y gwerthusiad eu cyfathrebu a'u rhoi ar waith?

Pwy arall all helpu?

11 Pwy arall all helpu?

Yma rydym wedi rhestru nifer o sefydliadau sy'n **arbenigo mewn cynnig cyngor, gwybodaeth, hyfforddiant ac ymgynghori ar hunanwerthuso.** Tra bod nifer o sefydliadau'n canolbwyntio ar un o wledydd y DU, mae eu deunyddiau yn aml yr un mor berthnasol i brosiectau sy'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU neu'n rhyngwladol.

Os ydych am ddod o hyd i adnoddau gwerthuso sy'n berthnasol i thema neu fath o weithgaredd penodol (er enghraifft, iechyd a lles, yr amgylchedd, dysgu a sgiliau, chwaraeon, datblygu cynaliadwy), gall fod yn ddefnyddiol fynd i wefannau dosbarthwyr eraill y Loteri ac adrannau perthnasol y Llywodraeth (cenedlaethol a rhanbarthol) - a dod o hyd i'w tudalennau ar y we sy'n ymwneud ag ymchwil, dadansoddi, gwerthuso neu berfformiad. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol hefyd os ydych am roi gwerthusiad eich prosiect yng nghyd-destun ehangach polisïau a thueddiadau cenedlaethol.

Ymysg ffynonellau gwybodaeth posib eraill ar gyfer eich gwerthusiad, ceir y canlynol: canolfannau ymchwil prifysgolion sy'n arbenigo mewn meysydd penodol; sefydliadau ymchwil neu ymgynghori preifat sy'n cyhoeddi eu hoffer neu ddeunyddiau cefnogi; sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol neu ranbarthol; adrannau ymchwil awdurdodau lleol; a grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd wedi cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau gwerthuso ar brosiectau sy'n debyg i'ch un chi.

Canllawiau a gwasanaethau cefnogi cyffredinol

Charities' Evaluation Service www.ces-vol.org.uk

Sefydliad Paul Hamlyn www.phf.org.uk

Community Evaluation Northern Ireland (CENI) www.ceni.org

Evaluation Support Scotland www.evaluationsupportscotland.org.uk

Evaluation Trust www.evaluationtrust.org

Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu www.IDeA.gov.uk

Volunteering England www.volunteering.org.uk

Volunteer Development Scotland www.vds.org.uk

Social Work Inspection Agency www.swia.gov.uk

Survey Monkey www.surveymonkey.com

Blake Stevenson www.blakestevenson.co.uk/biglotteryfund

Community Evaluation Northern Ireland (CENI) www.ceni.org

UK Evaluation Society www.evaluation.org.uk

Sefydliad Joseph Rowntree www.jrf.org.uk

Improving Support www.improvingsupport.org.uk

Canllawiau/pecynnau cymorth ar gyfer pynciau penodol

National Association for Voluntary and Community Action (NAVCA) www.navca.org.uk

Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau www.ahrc.ac.uk

Cyngor Celfyddydau Lloegr www.artscouncil.org.uk

Alcohol Concern www.alcoholconcern.org.uk

Homeless Outcomes www.homelessoutcomes.org.uk

Plant mewn Angen y BBC www.bbc.co.uk/pudsey

Biwro Cenedlaethol y Plant NCB www.ncb.org.uk

Pwy arall all helpu?

Adnoddau/pecynnau cymorth ar y gweill ar gyfer y dyfodol

Biwro Cenedlaethol y Plant NCB www.ncb.org.uk

Improving Support www.improvingsupport.org.uk

Charities' Evaluation Service

http://www.ces-vol.org.uk

Mae'r Charities Evaluation Service wedi cyhoeddi canllaw cynhwysfawr i fonitro a gwerthuso yn benodol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Mae adran derfynol y canllaw yn becyn cymorth ymarferol sy'n darparu awgrymiadau a thempledi ar gyfer dadansoddi data ynghyd ag offer casglu data. Mae'r canllaw ar gael gan Charities Evaluation Services, 4 Coldbath Square, Llundain EC1R 5HL – am gost o £33.50.

- Ellis, J (2005). Practical monitoring and evaluation: a guide for voluntary organisations. Llundain: Charities' Evaluation Service

Mae gwefan Charities' Evaluation Service yn rhestru llawer o ganllawiau eraill yn ei hadran 'Monitoring and Evaluation'. Gallwch chwilio'r rhain fesul ymagwedd a dull neu fesul sector.

Sefydliad Paul Hamlyn www.phf.org.uk

Mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE), mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi datblygu pecyn hawdd iawn ei ddefnyddio sydd â'r nod o gyflwyno gweithwyr a gwirfoddolwyr rheng flaen o'r sector gwirfoddol a chymunedol i lunio gwerthusiadau ac adroddiadau. Mae'n darparu dulliau hunanwerthuso creadigol a chyfranogol. Mae'r pecyn ar gael bellach i'w lawrlwytho am ddim o wefan Sefydliad Paul Hamlyn (gweler y ddolen uchod).

- Thompson (2007) Evaluation Resource Pack. Llundain: Sefydliad Paul Hamlyn a NIACE.

Community Evaluation Northern Ireland (CENI)

www.ceni.org

Fel rhan o brosiect tair blynedd ar hyfforddiant a datblygu gwerthuso a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, mae CENI wedi cynhyrchu canllaw sydd â'r nod o helpu sefydliadau drwy'r broses hunanwerthuso, gan ei thorri i lawr i set o gamau rhesymegol a chanolbwyntio'n benodol ar nodi a mesur canlyniadau.

- CENI 2008. Prove and Improve: A self-evaluation resource for voluntary and community organisations. Belfast: CENI a'r Gronfa Loteri Fawr.

Evaluation Support Scotland

www.evaluationsupportscotland.org.uk

Mewn cydweithrediad â Befriending Network Scotland a Scottish Mentoring Network, comisiynodd Evaluation Support Scotland becyn i roi cymorth i brosiectau gyflawni eu monitro a'u gwerthuso eu hunain. Datblygwyd y pecyn i ddarparu set o brosesau ac offer y gall sefydliadau mentora eu haddasu a'u defnyddio i fonitro a gwerthuso eu gwaith.

- Kennedy, McKenzie a Wilson (2006) Befriending and Mentoring Evaluation Resource Pack. Befriending Network Scotland, Scottish Mentoring Network ac Evaluation Support Scotland

Evaluation Trust

www.evaluationtrust.org

Mae Evaluation Trust wedi cynhyrchu pecyn cymorth i'w ddefnyddio gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Mae'n cynnwys cyngor ar ddulliau gwahanol a sut i'w cymhwyso, yn ogystal ag adnoddau megis cymhorthion gweledol. Gellir lawrlwytho'r ddogfen gyfan o'r wefan.

Pwy arall all helpu?

Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu

www.IDeA.gov.uk

Mewn cydweithrediad â'r CLlL, mae IDeA wedi datblygu arweiniad i helpu partneriaethau i ddatblygu hunanwerthusiad o'u hardaloedd. Mae hwn wedi'i ddylunio i helpu aelodau i gytuno ar asesiad o'u perfformiad eu hunain a nodi lle mae angen canolbwyntio sylw a gwelliant er mwyn cyflawni blaenoriaethau lleol.

- IDeA (2009) "Locality self evaluation guidance for partnerships". Llundain: IDeA a'r CLlL

Volunteering England

www.volunteering.org.uk

Volunteer Development Scotland

www.vds.org.uk

Gyda grant o Global Services Institute, Center for Social Development, Prifysgol Washington St. Louis, mae sefydliadau yn y DU a Sweden wedi datblygu pecyn cymorth i alluogi sefydliadau i asesu effaith gwirfoddoli ar yr holl fudd-ddeiliaid allweddol – y gwirfoddolwyr, y sefydliad, y buddiolwyr a'r gymuned ehangach. Gall sefydliadau ddefnyddio'r pecyn cymorth i asesu amrywiaeth eang o effeithiau, o ddatblygu sgiliau gwirfoddolwyr i werth economaidd sefydliadau gwirfoddoli. Gellir archebu'r pecyn cymorth naill ai drwy Volunteering England neu Volunteer Development Scotland am £35 i'r rhai nad ydynt yn aelodau neu £30 i aelodau.

- (2009) "Volunteering impact assessment toolkit".

Social Work Inspection Agency www.swia.gov.uk

Yn ddiweddar mae'r Social Work Inspection Agency wedi cyhoeddi canllaw sy'n galluogi gwasanaethau gwaith cymdeithasol i gyflawni hunanwerthusiadau. Er ei fod yn bennaf ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol, mae'n uniongyrchol berthnasol i wasanaethau gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol a ddarperir mewn partneriaethau aml-asiantaeth ac amlbartneriaeth ac mewn timau integredig.

Survey Monkey

www.surveymonkey.com

Mae Survey monkey yn offeryn arolwg ar-lein am ddim sydd â'r nod o alluogi unrhyw un i greu arolygon ar-lein yn gyflym ac yn hwylus. Gallwch dalu hefyd i greu arolygon mwy cymhleth a hygyrchu'r offer i ddadansoddi'r canlyniadau (fel arall mae'n rhaid i chi wneud y gwaith dadansoddi eich hun). Er enghraifft, nododd Evaluation Support Scotland fod yr offeryn arolwg hwn yn ffordd wirioneddol syml o gael adborth defnyddiol am ei weithgareddau a'i ganlyniadau.

Canllawiau/pecynnau cymorth ar gyfer pynciau penodol

National Association for Voluntary and Community Action (NAVCA)

www.navca.org.uk

Roedd Measuring Effectiveness yn brosiect ar y cyd rhwng NACVS a Charities Evaluation Services (CES), y mae ei nod oedd cynhyrchu pecyn cymorth hunanwerthuso a fyddai'n galluogi'r rhwydwaith CGG i wella'i weithgareddau monitro a gwerthuso a rhannu'r wybodaeth mewn ffordd gymharol a chyson.

- NACVS a CES (2002) Measuring effectiveness: A self-evaluation toolkit for the national network of Councils for Voluntary Service (CVS). Llundain: CES.

Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau

www.ahrc.ac.uk

Mae'r Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau

Pwy arall all helpu?

wedi datblygu canllawiau ar gyfer y gymuned celfyddydau a dyniaethau. Mae'n cynnig offer a thechnegau i'w defnyddio drwy gydol y broses.

- Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau: "Understanding your project: a guide to self evaluation."

Cyngor Celfyddydau Lloegr
www.artscouncil.org.uk

Mae gan Gyngor Celfyddydau Lloegr daflen wybodaeth ar-lein sy'n awgrymu rhai ymagweddau at hunanwerthuso ar gyfer artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau.

- Cyngor Celfyddydau Lloegr (2007) Self evaluation. Llundain: Cyngor Celfyddydau Lloegr.

Alcohol Concern
www.alcoholconcern.org.uk

Mae Dull Corryn Canlyniadau Alcohol (Alcohol Outcomes Spider) yn offeryn canlyniadau er mwyn i asiantaethau alcohol fesur canlyniadau allweddol eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaethau alcohol. Mae'r llawlyfr yn rhoi'r arweiniad a'r ffurflenni etc angenrheidiol er mwyn i asiantaethau alcohol gyflwyno'r dull corryn i'w harfer. Mae'r canllaw yn costio £11, a gellir ei archebu drwy'r wefan.

- Burns (2005). Alcohol outcomes spider: scales and guidance notes. Llundain: Alcohol Concern

Homeless Outcomes
www.homelessoutcomes.org.uk

Cyflwynir y wefan hon gan Homeless Link fel rhan o'i rhaglen ganlyniadau (outcomes programme) a ddechreuodd yn 2001 o dan arweinyddiaeth London Housing Foundation. Mae'n ceisio darparu adnodd un cam ar gyfer asiantaethau digartrefedd sydd â diddordeb mewn mabwysiadu ymagwedd at eu gwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am offeryn y Seren Ganlyniadau Outcomes Star ar gyfer mesur canlyniadau gwaith gyda phobl ddigartref.

- MacKeith, Burns and Graham (2008) "The Outcomes Star: supporting change in homelessness and related services". London: London Housing Foundation and Triangle Consulting.

Adnoddau/pecynnau cymorth sydd ar y gweill

Biwro Cenedlaethol y Plant NCB
www.ncb.org.uk

Mae NCB (a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr) wrthi'n datblygu pecyn cymorth hunanwerthuso i'w ddefnyddio gan sefydliadau Trydydd Sector i werthuso'u gweithgareddau. Bydd y pecyn cymorth yn cyflwyno amrywiaeth o ddulliau a modelau ar gyfer gwerthuso gwaith cyfranogi, gan gynnwys a chan argymell offer ac ymagweddau priodol eraill a fydd yn diwallu anghenion sefydliadau amrywiol y Trydydd Sector orau, a chan hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth werthuso. Yn ogystal ag offer ar gyfer asesu materion proses, bydd y pecyn cymorth yn cynnwys dulliau neu ymagweddau ar gyfer mesur a chofnodi effaith, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, staff/gwirfoddolwyr, sefydliadau a'r gymuned ehangach. Bydd canllaw 'sut mae gwneud' hygyrch ynghlwm wrth y pecyn cymorth i symleiddio gwerthuso a hyrwyddo'r defnydd o offer priodol.

Improving support
www.improvingsupport.org.uk

Mae Improving Support yn dod ag adnoddau a dysgu ymarferol ar gyfer darparwyr cefnogaeth trydydd sector ynghyd. Bydd y ffrwd waith rheoli perfformiad a arweinir gan Charities Evaluation Services yn hyrwyddo adnoddau sy'n helpu darparwyr i asesu a dangos canlyniadau eu gwaith.